CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2907 (Cy.206)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 20 Hydref 2005, yn gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweithredu erthygl 6 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 562/2005 (OJ Rhif L95, 14.4.2005, t.11) sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/1999 o ran cyfathrebiadau rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth.

Mae Rheoliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol i broseswyr llaeth ddarparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw wybodaeth y bydd y Cynulliad yn gofyn amdani drwy hysbysiad ynglŷn â phrisiau cynhyrchion llaeth penodol. Mae methu cydymffurfio â gofyniad o'r fath yn dramgwydd sy'n dwyn cosb ar gollfarn ddiannod o ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (rheoliad 3).

Cafodd arfarniad rheoliadol llawn ar yr effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes ei baratoi a gellir cael copïau oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2907 (W.206)

AGRICULTURE, WALES

Reporting of Prices of Milk Products (Wales) Regulations 2005

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which come into force on 20 October 2005 make provision in Wales for the implementation of article 6 of Commission Regulation (EC) No. 562/2005 (OJ No. L95, 14.4.2005, p.11) laying down rules for the implementation of Council Regulation (EC) No. 1255/1999 as regards communications between the Member States and the Commission in the milk and milk products sector.

Regulation 2 requires milk processors to provide the National Assembly for Wales with such information relating to the prices of certain milk products, as it may require by notice. Failure to comply with such a requirement is an offence punishable on summary conviction by a fine not exceeding level 5 on the standard scale (regulation 3).

A full regulatory appraisal on the effect which this instrument will have on the costs of business has been prepared and copies can be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2907 (Cy.206)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	*19 Hydref 2005*
Yn dod i rym	*20 Hydref 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn-

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005; deuant i rym ar 20 Hydref 2005 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Darparu gwybodaeth ar brisiau cynhyrchion llaeth

2.-(1) Rhaid i broseswr llaeth ddarparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wybodaeth ynglŷn â phrisiau cynhyrchion llaeth y bydd y Cynulliad yn gofyn amdani drwy hysbysiad at ddibenion Erthygl 6 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 562/2005 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/1999 o ran cyfathrebiadau rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth(**3**).

(2) Caiff yr hysbysiad y cyfeirir ato o dan baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r proseswr llaeth ddarparu'r wybodaeth ofynnol yn wythnosol, a chaiff bennu'r amser a'r diwrnod erbyn pryd y bydd rhaid darparu'r wybodaeth a ffurf yr wybodaeth.

(**1**) O.S. 2005/1971.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) OJ Rhif. L95, 14.4.2005, t.11.

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2907 (W.206)

AGRICULTURE, WALES

Reporting of Prices of Milk Products (Wales) Regulations 2005

Made	*19 October 2005*
Coming into force	*20 October 2005*

The National Assembly for Wales, being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred upon it by that section makes the following Regulations-

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Reporting of Prices of Milk Products (Wales) Regulations 2005; they come into force on 20 October 2005 and apply in relation to Wales.

Provision of information on prices of milk products

2. -(1) A milk processor must provide to the National Assembly for Wales such information relating to the prices of milk products as it may by notice require for the purposes of Article 6 of Commission Regulation (EC) No. 562/2005 laying down rules for the implementation of Council Regulation (EC) No. 1255/1999 as regards communications between the Member States and the Commission in the milk and milk products sector(**3**).

(2) The notice referred to under paragraph (1) may require the milk processor to provide the information requested on a weekly basis, and may specify the time, day and format in which the information has to be provided.

(**1**) S.I. 2005/1971.

(**2**) 1972 c.68.

(**3**) OJ No. L95, 14.4.2005, p.11.

Tramgwydd

3. Bydd unrhyw berson sy'n methu cydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn rheoliad 2(1) yn euog o dramgwydd, ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

19 Hydref 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Offence

3. Any person who fails to comply with a notice referred to in regulation 2(1) is guilty of an offence, and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

19 October 2005

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 2907 (Cy.206)

2005 No. 2907 (W.206)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

Reporting of Prices of Milk Products (Wales) Regulations 2005

©℗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W143/10/05 ON